# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cynllun Ieithoedd Swyddogol

# Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: www.cynulliad.cymru
E-bost: cysylltu@cynulliad.cymru
Ffôn: 0300 200 6565

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Cynllun Ieithoedd Swyddogol

# Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

# Cynnwys


**Rhagair** ..... 1

**Cyflwyniad** ..... 3

**01.Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth** ..... 5

Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau ..... 5

Cefnogaeth o Safon Fyd-eang i'r Pwyllgorau ..... 7

Iaith a Thechnoleg ..... 9

Ymateb i adborth Aelodau ..... 10

Cofnod y Trafodion ..... 10

Ap y Cynulliad ..... 11

**02.Gwasanaethau i bobl Cymru** ..... 13

Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad ..... 13

Cefnogi dysgwyr Cymraeg ..... 14

Aelodau a'u Hetholwyr ..... 16

Cefnogi cydweithwyr ..... 16

**03.Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad** ..... 19

Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ..... 19

Arolwg o Sgiliau Iaith Gymraeg ..... 19

Recriwtio ..... 19

Gwell argaeledd gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd ar gyfer cyfarfodydd mewnol ..... 21

**04.Monitro ac Adrodd** ..... 23

Cydymffurfio ..... 23

Cwynion ..... 23

Gwersi a Ddysgwyd ..... 24

**05.Blaenoriaethau ar gyfer 2015-16** ..... 25

Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ..... 25

Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru ..... 25

Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad ..... 26



# Rhagair

Mae’n bleser gennyf gyflwyno’r ail Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad. Dywedais yn fy rhagair i'r adroddiad y llynedd ein bod wedi gwneud cynnydd mawr ond ein bod yn dal i fod â rhagor i'w gyflawni. Mae'r adroddiad hwn yn dangos gwelliannau pellach yn ein gwasanaethau dwyieithog drwy gydol y flwyddyn ac yn ein dwyn yn nes at gyflawni ein huchelgais o gael ein cydnabod fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Hwn fydd fy nghyfle olaf fel Comisiynydd i gyflwyno'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol. Bydd yr adroddiad nesaf yn amlinellu ein cynnydd yn y bumed flwyddyn, sef blwyddyn olaf y Cynulliad hwn, ond caiff ei gyflwyno gan fy olynydd ar ddechrau'r Pumed Cynulliad. Byddaf yn defnyddio'r cyfle hwn felly, i edrych yn ôl ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni ers cyflwyno'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol cyntaf ym mis Gorffennaf 2013.

Mae'r gwaith a wnaed gennym wedi paratoi sylfeini cadarn y gallwn barhau i adeiladu arnynt. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi rhoi gwir pwyslais mawr ar ei strategaeth ymgysylltu, a gwerthfawrogi pob cyfraniad i ddemocratiaeth. Mae galluogi pawb i ymgysylltu â ni yn yr iaith swyddogol o'u dewis hwy, sut bynnag y maent yn dymuno gwneud hynny, yn chwarae rhan enfawr yn y strategaeth honno.

Mae cyflwyno'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a'r gwaith a wnaed ar sgiliau iaith penodol a darpariaeth dysgu yn dangos ein bod yn meddwl yn wahanol ac yn defnyddio ein hadnoddau yn fwy hyblyg a chreadigol. Mae Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wedi dweud wrthym fod ganddynt feddwl uchel o'r gefnogaeth a ddarperir i'w galluogi i weithio yn eu dewis iaith. Rydym yn gwerthfawrogi pob adborth, ac wedi defnyddio'r ffynhonnell gyfoethog hon o wybodaeth gan randdeiliaid mewnol ac allanol i wneud gwelliannau i'n gwasanaethau dwyieithog. Byddwn yn defnyddio gweddill tymor y Cynulliad hwn i atgyfnerthu'r sefyllfa honno, a phennu safonau uwch fyth wrth baratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad. Fel y gwelwch, mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn seneddol hon yn adlewyrchu'r weledigaeth honno.

Mae'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol hwn yn dathlu'r ffaith ein bod wedi trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog. Bydd y diwylliant ac ethos dwyieithog sydd wedi dod yn rhan annatod ar draws y sefydliad yn golygu y byddwn yn edrych yn barhaus am ffyrdd o wella. Edrychaf ymlaen at weld enw da Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn esblygu ac yn ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.



**Rhodri Glyn Thomas AC**
**Comisiynydd sy’n gyfrifol am swyddogaethau a pholisi Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn**


AGORWYD GAN EI MAWRHYDI
OPENED BY HER MAJESTY THE

# Cyflwyniad

Ers cyhoeddi'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ym mis Gorffennaf 2013, uchelgais Comisiwn y Cynulliad yw parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol a chael ei gydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adeiladu ar y gwaith a wnaed i sefydlu'r cynllun, cynnal a chynyddu momentwm a hyrwyddo diwylliant ac ethos dwyieithog.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi aros yn gwbl ymrwymedig i'r Cynllun, ac wedi annog staff i ystyried meysydd ar gyfer gwella ac i fod yn greadigol a rhagweithiol yn eu darpariaeth o'r holl wasanaethau. Mae gofynion y Cynllun a chydymffurfio â'r gofynion hynny, yn rhan annatod o Gynlluniau Gwasanaeth Unedau meysydd unigol. Bydd cynnal y momentwm a'r brwdfrydedd dros arloesedd a newid yn flaenoriaeth eleni eto ac yn arbennig o fewn cyd-destun Etholiad Cyffredinol y Cynulliad yn 2016.

Mae ein hymrwymiad i gyflawni ein nodau hirdymor mor gryf ag erioed sef:

- darparu mwy o wasanaethau dwyieithog rhagorol;
- gwerthfawrogi ein staff am yr ymrwymiad y maent yn ei roi i'r Cynulliad a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol; a
- rhannu ein profiadau a'n gwybodaeth am weithio'n ddwyieithog gyda sefydliadau eraill.

Y flwyddyn seneddol nesaf fydd blwyddyn olaf y Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol. Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad adolygu'r Cynllun "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob etholiad cyffredinol cyffredin ...". Bydd paratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cynnwys gwaith rhagarweiniol ar yr adolygiad hwn ac yn datblygu Cynllun ar gyfer y Cynulliad newydd yn 2016.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ac yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod seneddol.



# 01. Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

## Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau

Yn ystod y flwyddyn, archwiliwyd ffyrdd amgen o gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad gyda gweithio'n ddwyieithog yn y Cyfarfod Llawn. Caiff holl ddogfennau'r Cyfarfod Llawn eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un pryd. Gall Tîm Gwasanaethau'r Siambr ryngweithio ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn eu dewis iaith, o drafodaethau anffurfiol a darparu cyngor, i negeseuon e-bost yn ymateb i negeseuon gwib a cheisiadau i siarad ar y system TGCh yn y Siambr. Mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi cryfhau ei gallu i weithio'n ddwyieithog. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus iawn y llynedd, mae'r swydd newydd sy'n cyfuno swyddogaethau'r clerc a'r cyfieithydd wedi'i gwneud yn barhaol, gan alluogi'r Swyddfa i ddarparu gwasanaeth gwell yn y ddwy iaith.

> Gallwn gynnal ein holl drafodaethau gyda'r Swyddfa Gyflwyno yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ar eiriad unrhyw gwestiynau, dadleuon, Datganiadau o Farn neu fusnes Grŵp Trawsbleidiol wedi'i ddrafftio yn Gymraeg. Gellir gwneud hyn wyneb yn wyneb, neu drwy e-bost heb fod angen cyfieithiad. Mae'r amseroedd prosesu ac ymateb yr un hyd bellach ar gyfer y ddwy iaith.
>
> Swyddfa Keith Davies AC

Gan adeiladu ar lwyddiant y geirfaoedd deddfwriaeth, a gyflwynwyd y llynedd ac sy'n darparu cyfieithiadau ar gyfer terminoleg arbennig o dechnegol neu ddeddfwriaethol, maent bellach yn cael eu darparu'n gynharach ac ar y cam cychwynnol pan fydd hynny'n bosibl. Mae hyn yn galluogi Aelodau'r Cynulliad i baratoi ar gyfer yr holl ddadleuon a'r trafodaethau ar Filiau yn eu dewis iaith, a chyfrannu atynt hefyd. Darperir cymorth wedi'i deilwra ar gyfer Cadeiryddion pwyllgorau er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer dadleuon a chyflwyno areithiau yn eu dewis iaith. Mae hyn yn cynnwys drafftio nodiadau areithiau a phapurau briffio wedi'u teilwra yn ddwyieithog, yn ogystal â chymorth un i un cyn y dadleuon. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio terminoleg ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i'w helpu ymhellach wrth ddrafftio nodiadau areithiau.

> Fel Cadeirydd pwyllgor, a rhywun sy'n dysgu Cymraeg, teimlaf ei bod yn bwysig imi ddefnyddio'r ddwy iaith yn ystod trafodion y Pwyllgor, a hefyd wrth gymryd rhan mewn trafodaethau am ar ein hymchwiliadau. Mae tîm y Pwyllgor yn darparu cymorth cynhwysfawr gan gynnwys nodiadau areithiau a chymorth un i un cyn trafodaethau yn y Cyfarfodydd Llawn, sy'n rhoi hyder i mi i wneud cyfraniadau dwyieithog
>
> David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol



## Cefnogaeth o Safon Fyd-eang i'r Pwyllgorau

Y llynedd, cymerwyd camau rhagweithiol i gael gwell dealltwriaeth o anghenion iaith Aelodau'r Cynulliad drwy ganfod dewis yr Aelodau.  Rydym wedi gweithio tuag at weithredu nifer o welliannau ac wedi cwrdd ag Aelodau unigol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu i ymateb yn benodol i'w hanghenion. Drwy ddatblygu ein gwybodaeth am ddewis iaith ein Haelodau, rydym wedi gallu gwella a theilwra ein gwasanaethau cymorth i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein trafodion.

Er mwyn deall dewisiadau Aelodau'r Pwyllgorau wrth eu gwaith, cynhaliodd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ymgynghoriad â holl Aelodau'r pwyllgorau i drafod sut y gallwn eu cynorthwyo â'u llwyth gwaith pwyllgor yn well. Roedd hwyluso gweithio dwyieithog yn rhan annatod o'r trafodaethau hynny. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi newid y ffordd rydym yn darparu cymorth i'r pwyllgorau amrywiol. Dywedodd Aelodau rhai pwyllgorau y byddai'n well ganddynt lai o ddogfennau, ond wedi'u teilwra'n well yn ddwyieithog. Dywedodd eraill wrthym y byddai'n well ganddynt fwy o bapurau briffio dwyieithog. O ganlyniad, mae timau integredig y pwyllgorau wedi addasu eu harferion gweithio i ymateb i sylwadau'r Aelodau. Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio adnoddau a darparu cymorth unigol wedi'i deilwra ar sail pwyllgorau unigol tra'n cynnal hyblygrwydd pan fydd aelodaeth y Pwyllgor yn newid.

Gan adeiladu ar lwyddiant y peilot briffio dwyieithog, rydym bellach wedi datblygu'r ddarpariaeth hon i gynnwys pwyllgorau ychwanegol. Caiff y Pwyllgorau canlynol ddogfennau briffio cwbl ddwyieithog erbyn hyn fel mater o drefn:

- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Y Pwyllgor Cyllid
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

> Mae’r ffaith fy mod yn derbyn papurau a dogfennau briffio dwyieithog, ac yn gallu gwneud defnydd o’r geirfaoedd sy’n cael eu cynhyrchu yn gymorth mawr i mi o ran defnyddio Cymraeg yn rheolaidd. Erbyn hyn, rydw i’n teimlo’n fwy hyderus wrth gyfrannu i drafodion cyfarfodydd llawn a phwyllgorau yn Gymraeg.
>
> Aled Roberts AC

Byddwn yn parhau i weithio gydag Aelodau i ddod o hyd i ffyrdd amgen ac arloesol o ddarparu'r cymorth angenrheidiol i'w galluogi i weithio'n ddwyieithog.


# Technoleg ac ymgysylltu

Defnyddir Google+ Hangouts i annog trafodaeth a dadl rhwng grŵp o randdeiliaid mewn gwahanol leoliadau ac Aelodau'r Cynulliad, swyddogion a staff.

Maent yn tueddu i gael eu defnyddio fel dull llai ffurfiol o ymgynghori a chânt eu gwneud mewn 'amser gwirioneddol', sy'n galluogi cyfranogwyr i gael cysylltiad mwy personol ag Aelodau. Mae hwyluswyr dwyieithog yn annog gwesteion i drafod materion yn eu dewis iaith, heb lesteirio ymgysylltiad â chyfranogwyr eraill.

Gofynnir cwestiynau yn ddwyieithog, a chânt eu hateb yn newis iaith pob cyfranogwr.

Ar ôl mynd ati i chwilio am adborth gan y cyfranogwyr, rydym wedi dysgu bod y dull hwn o ymgysylltu (yn arbennig gyda demograffig 16 – 25 oed mewn coleg / Prifysgol), gallwn gyrraedd y bobl hynny nad ydynt yn debygol o ymateb i ymchwiliadau yn y dull traddodiadol.



## Iaith a Thechnoleg

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflwyno a hyrwyddo cyfieithu peirianyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae lansio Microsoft Translator yn 2014 wedi trawsnewid ffyrdd o weithio drwy alluogi'r defnyddiwr i gyfieithu'n gyflym o un iaith i'r llall yn uniongyrchol o raglenni a gaiff eu cefnogi gan Microsoft, heb yr angen i gomisiynu cyfieithiad ffurfiol. Mae hyn wedi arwain at newid yn y ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu fel sefydliad, ar gyfer pobl ddi-Gymraeg a chyfieithwyr proffesiynol. Gall staff di-Gymraeg ddeall hanfod gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, ac mae defnydd y cyfieithwyr o gyfieithu peirianyddol wedi arwain at effeithlonrwydd cynyddol cyffredinol o tua 20%. Mae hyn wedi arwain at ryddhau staff i weithio mewn meysydd blaenoriaeth eraill, fel cyfieithu papurau briffio cyfarfodydd. Rydym yn parhau i gydweithio â Microsoft ar gywirdeb, ac mae hynny'n parhau i wella. Mae'r berthynas waith gadarnhaol hefyd wedi caniatáu inni ddarparu adborth defnyddwyr i Microsoft ar eu teclynnau iaith ac i drafod gwelliannau posibl.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi cysylltu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus dwyieithog i ddangos manteision cyfieithu peirianyddol, yn ogystal ag annog sefydliadau i rannu data gyda'r prosiect.

Mae ysgogi a chynnal sgwrs â chanolfannau rhagoriaeth yng Nghymru wedi bod yn flaenoriaeth i Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r gwaith hwn yn caniatáu inni fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau yn y maes technoleg iaith a chyfieithu a sicrhau ein bod yn dal ar flaen y gad o ran trafodaethau ynghylch sut y gellir defnyddio technoleg iaith i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Cymerodd Comisiwn y Cynulliad ran mewn digwyddiadau rhyngwladol gan gynnwys arwain seminar ar y defnydd o dechnoleg iaith yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Hansard Canada yn Quebec, a chymryd rhan mewn trafodaeth panel yn lansiad y Porth Technolegau Iaith Cenedlaethol. Cynrychiolwyd y Comisiwn hefyd yn anghynhadledd flynyddol Hacio'r Iaith, sy'n gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a selogion sy'n archwilio technoleg cyfrwng Cymraeg, a'r defnydd ohoni, yn rheolaidd.

> Weithiau, caf negeseuon e-bost yn Gymraeg gan aelodau o'r cyhoedd. Fel dysgwr, nid wyf bob amser yn gallu deall yr ohebiaeth yn llawn. Mae cyfleuster cyfieithu yn fy mlwch Outlook yn fy ngalluogi i gael cyfieithiad mwy manwl o e-bost, sy'n fy ngalluogi i weithredu'n gyflymach a gyda mwy o hyder yn fy nealltwriaeth gychwynnol o'r cynnwys, heb orfod comisiynu cyfieithiad llawn.
>
> Aelod o dîm y Pwyllgor Deisebau

## Ymateb i adborth Aelodau

Rydym yn gofyn yn rheolaidd i Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth am eu hanghenion dysgu a datblygu ac, fel rhan o'r broses hon, rydym yn casglu adborth ar y ddarpariaeth dysgu iaith bresennol a'u hanghenion dysgu unigol. O ganlyniad i drafodaethau, rydym wedi gallu teilwra darpariaeth gan ddefnyddio cyfuniad o ddarparwyr mewnol a sefydliadau allanol. Bydd yr adborth a gafwyd yn llywio ein hadolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth fel rhan o'n paratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Rydym hefyd yn rhoi llinyn gwddf i bawb sy'n dysgu Cymraeg i nodi eu bod yn dysgu.

## Cofnod y Trafodion

Un flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn seneddol hon oedd cynnal adolygiad cynhwysfawr o Gofnod y Trafodion. Cynhaliwyd yr adolygiad, ac mae prosiect i edrych ar Gofnod y Trafodion y dyfodol wedi dechrau. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i brosesau cynhyrchu ac arferion gwaith gan gynnwys adolygiad o'r arddull golygu. Caiff y gwaith golygu bellach ei wneud yn llai llym er mwyn adlewyrchu geiriau'r siaradwr yn well ac alinio testun yn well gyda ffrwd sain weledol Senedd.tv yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r gwaith o gynhyrchu fersiwn dwyieithog llawn o Gofnod y Trafodion yn gyflymach yn parhau i fynd rhagddo.

# Ap y Cynulliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi lansio ap symudol, sy’n cynnig ffordd arall i bobl gael gwybodaeth am beth sy’n digwydd yn y Cynulliad.

Nod yr ap dwyieithog yw sicrhau bod gwybodaeth am y Cynulliad a’i waith ar gael yn hwylus i bobl ar eu dyfeisiau symudol, yn y ddwy iaith.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â’n datblygwyr i ddatblygu ap dwyieithog, a byddwn yn parhau i ddiweddaru a gwella yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr.




ni'n
dysgu
gweini

# 02. Gwasanaethau i bobl Cymru

## Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad

Mae capasiti yng nghaffi a siop y Cynulliad wedi gwella llawer gan fod yr holl staff arlwyo wedi cael hyfforddiant sylfaenol ar gyfarch cwsmeriaid, ac mae nifer sylweddol yn parhau i gael hyfforddiant pellach. Mae nifer o Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth ac eraill wedi rhoi adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth dwyieithog gwell a ddarperir gan y staff arlwyo ar draws ystâd y Cynulliad. Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn gweithio gyda'n contractwyr arlwyo i recriwtio mwy o aelodau dwyieithog o staff.

Mae'r tîm Diogelwch, hefyd, wedi cynyddu capasiti i weithio'n ddwyieithog o ganlyniad i weithio gyda'r tîm i ddatblygu sgiliau sylfaenol ar gyfer cyfarch ymwelwyr, ac annog dysgwyr mwy hyfedr i ddefnyddio eu sgiliau yn y gweithle. Mae gan bob tîm Diogelwch o leiaf un siaradwr Cymraeg rhugl sy'n gallu ymdrin yn hyderus ag ymwelwyr â'r ystâd yn y ddwy iaith. Byddwn yn parhau i gefnogi'r tîm Diogelwch ac adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud.

## Cefnogi dysgwyr Cymraeg

Er mwyn cynyddu ein capasiti i ddarparu mwy o wasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid, rydym wedi trawsnewid y ffordd yr ydym yn cefnogi Staff y Comisiwn sydd am ddysgu Cymraeg. Ym mis Tachwedd 2014, dechreuasom dreialu dull mwy anffurfiol drwy benodi tiwtor Cymraeg mewnol. Mae'r cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus iawn am ei fod wedi'i deilwra ac yn amrywiol. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau mentora un i un, gwersi ffurfiol a gweithgareddau dysgu mwy anffurfiol i unigolion a grwpiau, o ddechreuwyr llwyr i ddysgwyr uwch. Mae mentrau eraill fel Gair Cymraeg y dydd yn ymddangos ar y dudalen newyddion, ac adran dysgwyr Cymraeg ar fewnrwyd y staff gyda podlediadau, fideos YouTube a gwybodaeth ddefnyddiol a dulliau eraill hefyd wedi bod yn boblogaidd.

Ar y cyfan, mae 74 o aelodau o staff wedi cael hyfforddiant, yn ychwanegol at aelodau'r staff sydd eisoes yn ymwneud â dysgu ffurfiol drwy ein contract Cymraeg i oedolion traddodiadol. Un o'r prif flaenoriaethau oedd cynnig hyfforddiant i'n staff di-Gymraeg sy'n wynebu'r cyhoedd, fel y swyddogion diogelwch a'r staff arlwyo. Mae hyn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus, gyda gwersi rheolaidd ar gyfer y ddwy set o staff, sydd wedi cynyddu'r defnydd o gyfarchion dwyieithog ar draws y gwasanaethau hynny. Byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd arloesol a chreadigol o gefnogi ein dysgwyr Cymraeg.

Hefyd, datblygwyd llinyn gwddf newydd i ddysgwyr Cymraeg mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'n gynllun syml a hawdd ei adnabod ar unwaith yn seiliedig ar y logo Iaith Gwaith, ac wedi ei addasu i adlewyrchu brand Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n cynnwys y gair 'Dysgwr'. Mae'r llinyn gwddf yn hynod o boblogaidd ymysg Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Hefyd rydym wedi ennill cydnabyddiaeth gan gyrff allanol, ac rydym yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i edrych ar y posibilrwydd o rannu'r llinyn gwddf gyda chyrff eraill ledled Cymru. Mae nifer o gyrff cyhoeddus wedi gwneud ymholiadau am y llinynnau gwddf, gan gynnwys cynghorau a byrddau iechyd.

# Llinynnau gwddf Dysgwr

" Cefais i sampl o linyn gwddf Dysgwr gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dim ond ers wythnos rydwyf wedi bod yn ei wisgo ac rwyf eisoes wedi colli cyfrif ar nifer y bobl sydd wedi siarad â mi yn y Gymraeg. Mae wedi fy ngalluogi i ymarfer fy sgiliau iaith heb orfod egluro fy mod yn ddysgwr. Mae cydweithwyr eraill wedi dweud wrthyf y byddent yn croesawu cyflwyno'r llinynnau gwddf o fewn ein sefydliad."

*Julianne Rowsell, aelod o staff Bwrdd Iechyd Lleol a dysgwr Cymraeg*



## Aelodau a'u Hetholwyr

Dywedodd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wrthym y byddent yn gwerthfawrogi cymorth ychwanegol i ymgysylltu â'u hetholwyr yn ddwyieithog. Rydym wedi treialu rhai dulliau amgen o gomisiynu cyfieithiadau ac argraffu cyhoeddiadau fel hysbysiadau cymorthfeydd ac adroddiadau misol ar faterion etholaethol. Er mwyn helpu Aelodau i elwa ar y cymorth hwn, rydym hefyd wedi trefnu hyfforddiant ar gyhoeddiadau ar gyfer staff cymorth. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau dwyieithog. Wrth inni symud tuag at y Pumed Cynulliad, byddwn yn edrych ar ffyrdd o helpu Aelodau'r Cynulliad i ymgysylltu â'u hetholwyr yn ddwyieithog.

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i sicrhau ein bod yn rhagweithiol wrth gynnig dewis o iaith i holl ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad. Mae caffael consol cyfieithu symudol newydd ac offer cyhoeddi ychwanegol wedi ein galluogi i gynnig cyfieithu ar y pryd mewn unrhyw leoliad ar draws ystâd y Cynulliad, ac i wneud hynny ar fyr rybudd os bydd angen. Mae contract hyblyg yn ôl y gofyn ar gyfer yr holl wasanaethau cyfieithu yn golygu bod gennym yr hyblygrwydd i ymateb i gynnydd yn y galw yn effeithiol.  Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd amlwg yn nifer yr Aelodau sy'n defnyddio'r contract yn ôl y gofyn i gynnal cyfarfodydd dwyieithog mewn lleoliadau yn eu hetholaethau.

## Cefnogi cydweithwyr

Un rhan bwysig o werthfawrogi ein staff a'u harbenigedd seneddol yw eu galluogi i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gwaith. Er mwyn rhoi cefnogaeth bellach i gydweithwyr sydd eisoes â rhywfaint o sgiliau Cymraeg, ond heb yr hyder, o bosibl, mae'r gwasanaeth cyfieithu a chofnodi wedi datblygu amrywiaeth o ddarpariaethau er mwyn sicrhau y gallwn wella ein gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid, gan gynnwys:

– Gwasanaeth prawfddarllen cynhwysfawr sy'n cynnwys yr opsiwn i gael adborth ysgrifenedig ar ramadeg a chystrawen

– Ffurfioli system wirio cyfieithu peirianyddol er mwyn ymateb yn gyflym i ddarnau byr o waith


– Cyfres o sesiynau hyfforddi 'gloywi iaith' gyda'r opsiwn mentora un i un yn dilyn y sesiynau

Wrth symud ymlaen, ein nod yw datblygu'r hyfforddiant gloywi a chymorth er mwyn sicrhau y gall aelodau o staff sydd am ddrafftio yn Gymraeg, wneud hynny yn hyderus.

## Astudiaeth achos

**“**Pan ymunais i â Chynulliad Cenedlaethol Cymru beth amser yn ôl, penderfynais fanteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg, ac roedd hynny yn y ffordd draddodiadol gyda darparwyr allanol. Mae’r cyfleoedd hyfforddiant a datblygu newydd a mwy hyblyg a gyflwynwyd yn fewnol eleni wedi fy ngalluogi i fagu hyder drwy gyfuniad o hyfforddiant un i un a hyfforddiant gloywi sy’n addas i fy anghenion a lefel.**”**

*Aelod o Staff Comisiwn y Cynulliad a’r dysgwr Cymraeg*



## Rhannu arbenigedd

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymgysylltu'n rhagweithiol i ddarparu cyngor a rhannu arbenigedd gydag ystod o gyrff allanol. Unwaith eto eleni, rydym wedi gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ac wedi darparu dau o'n uwch gyfieithwyr i ddarlithio yn y modiwl Cyfieithu Proffesiynol. Mae'r Cynulliad yn aelod o'r Panel Safoni Termau a Geiriaduraeth Cymraeg a sefydlwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn rhoi cyngor ar ddatblygu terminoleg a safoni ynghyd â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru ac eraill. Rydym wedi gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu ei gynigion ar gyfer fframwaith cymhwyster achrededig ar gyfer cyfieithwyr a bydd y berthynas hon yn parhau er mwyn rhoi cefnogaeth i ddarparwyr yr hyfforddiant. Mae Aelodau Staff y Comisiwn wedi ymgymryd â rôl arholwyr a hyfforddwyr i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, a Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y pryd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r Cyfieithwyr ar y pryd wedi cydweithio gyda'r Sefydliad Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd [ITI] a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi meithrin ein perthynas â nifer o sefydliadau allanol ymhellach i roi cyngor a chyfarwyddyd ymarferol ar faterion yn ymwneud â sefydlu a rhedeg gwasanaeth cyfieithu a'r defnydd effeithiol o dechnoleg iaith. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifysgolion, Llywodraeth Leol a chyrff cyhoeddus eraill. Yn sgil y datblygiadau yr ydym wedi'u cyflwyno, yr ydym yn prysur ddatblygu enw da fel arweinwyr yn y maes gweithio'n ddwyieithog yng Nghymru, a byddwn yn ceisio rhannu ein profiadau o ddefnyddio technoleg iaith, darparu gwasanaethau pwrpasol ac ati gyda charfan ehangach o gyrff a sefydliadau.

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad berthynas adeiladol â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae ein cyswllt dynodedig yn Swyddfa'r Comisiynydd yn ffynhonnell reolaidd o gyngor ac yn arwyddbost i enghreifftiau o arfer gorau. Cyfeiriwn yn rheolaidd at ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiynydd ar ystod eang o faterion, yn fwyaf diweddar yn ystod y gwaith o ddatblygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Comisiwn ac Archwiliad, ac yn ystod trafodaethau ar ddwyieithrwydd a chyfryngau cymdeithasol, a chyhoeddi. Mae ein Tiwtor Cymraeg wedi sefydlu perthynas hynod fuddiol gyda'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion leol, sy'n darparu cyngor a chanllawiau yn ôl yr angen.

# 03.Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad

## Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Ym mis Ebrill 2015, cafodd Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Comisiwn y Cynulliad ei lansio. Mae'n amlinellu ein dull o gynllunio, datblygu a rheoli adnoddau sgiliau dwyieithog y sefydliad. Cafodd y Strategaeth ei rhannu'n bedwar prif faes, ac mae'n cynnwys amcanion a dyddiadau targed ar gyfer pob maes:

– Codi Ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i weithio mewn sefydliad dwyieithog a'r disgwyliadau a nodir yn ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol

– Sgiliau presennol a deall ble mae ein cryfderau a gwendidau o ran darpariaeth gwasanaeth dwyieithog yn gorwedd

– Mapio capasiti presennol i gyflwyno gwasanaethau dwyieithog (a helpu pobl i wneud hyn yn fwy cyson)

– Hyfforddiant i gefnogi ein staff i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol yn ddiofyn

Cymraeg:
**http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/About%20the%20Assembly%20section%20documents/Bilingual-Skills-Strat/bilingual-skills-strategy-cy.pdf**

## Arolwg o Sgiliau Iaith Gymraeg

Er mwyn penderfynu ar fesur sylfaenol o sgiliau sy'n bodoli eisoes o fewn y sefydliad, cynhaliwyd archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r archwiliad yn seiliedig ar ddulliau hunanasesu sgiliau iaith a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn y ddogfen 'Recriwtio: Ystyried y Gymraeg'. Bydd y data a gesglir yn cael eu defnyddio i lywio cynlluniau iaith gwasanaethau unigol ac yn ystod y flwyddyn seneddol nesaf, ein blaenoriaeth fydd datblygu a diweddaru cynlluniau iaith gwasanaethau unigol ymhellach er mwyn sicrhau bod gan bob gwasanaeth y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog neu i ymdrin â diffygion drwy hyfforddiant neu recriwtio. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu ac i Gomisiynwyr y Cynulliad bod ein staff yn meddu ar y sgiliau a'r gefnogaeth i allu darparu pob gwasanaeth dwyieithog a amlinellir yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol i'r safonau uchaf.

## Recriwtio

Un o ofynion eraill y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yw cyflwyno matrics a fydd yn cynorthwyo Penaethiaid Gwasanaethau a'r tîm Adnoddau Dynol i ddynodi sgiliau iaith ar gyfer swyddi unigol yng nghyd-destun y cynlluniau iaith gwasanaethau unigol a gofynion y Cynllun ei hun. Bydd y matrics yn ffurfioli'r ystyriaethau presennol er mwyn rhoi sicrwydd bod penodiadau i swyddi yn cael eu gwneud gydag ystyriaeth ddyledus i unrhyw sgiliau iaith sy'n ofynnol gan ddeilydd y swydd, ac i fod yn gyson wrth benderfynu ar ofynion sgiliau iaith ein swyddi.

# Ein System Adnoddau Dynol

Ym mis Mawrth, llwyddodd y Cynulliad i wireddu uchelgais hirdymor o ddarparu'r system adnoddau dynol/y gyflogres, sef FiYw, yn ddwyieithog i staff y Comisiwn. Ers lansio'r system ym mis Mawrth 2014, mae'r tîm Adnoddau Dynol wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad a'n cyflenwr allanol, i ddarparu system wirioneddol ddwyieithog sy'n caniatáu i'r staff weithio yn eu dewis iaith.

Mae FiYw yn canfod iaith y porwr rhyngrwyd ac yn arddangos holl dudalennau FiYw yn yr iaith honno (Cymraeg neu Saesneg). Ein dealltwriaeth ni yw mai dyma'r enghreifftiau gyntaf erioed o'r ddarpariaeth hon.



## Cyngor a chanllawiau

Drwy gydol y flwyddyn, mae Tîm y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a Chydgysylltwyr y meysydd gwasanaeth unigol wedi darparu cyngor ac arweiniad i gydweithwyr ar nifer o faterion gan gynnwys:

– Hysbysebu swyddi

– Caffael gwasanaethau a meddalwedd

– Comisiynu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau

## Gwell argaeledd gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd ar gyfer cyfarfodydd mewnol

Er mwyn hwyluso mwy o weithio dwyieithog yn fewnol, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mwy rhagweithiol wedi bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Defnyddiwyd y gwasanaeth fel a ganlyn:

– Cyfarfodydd yr Holl Staff, y Prif Swyddogion Gweithredol a chyfarfodydd grwpiau staff

– Cyfarfodydd Bwrdd Rheoli staff y Cynulliad

– Amrywiaeth o gyfarfodydd Bwrdd Prosiect

– Cyfarfodydd timau gwasanaethau

– Seminarau Gwrthfrawychwyr ar Aros yn Ddiogel / sesiynau briffio

– Cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol



# 04.Monitro ac Adrodd

Mae Rhwydwaith y Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol wedi gweithio'n galed eto eleni i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei wreiddio ymhellach ar draws y sefydliad, a bod gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu'n ddiofyn. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â'r Cynllun ac i rannu syniadau. Roedd y Cydgysylltwyr hefyd yn allweddol o ran rhoi'r Strategaeth Gwasanaethau Dwyieithog ar waith ac wrth annog pob cydweithiwr i gwblhau'r Archwiliad Sgiliau Dwyieithog.

## Cydymffurfio

Mae rhagor o ddulliau monitro anffurfiol wedi cael eu mabwysiadu eleni, gan gynnwys cyfarfodydd un i un gyda'r holl Gydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol i sicrhau bod unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun yn cael eu nodi a'u trin. Y Cydgysylltwyr, hefyd, sydd â'r dasg o hysbysu Rheolwr y Cynllun am unrhyw achosion o dorri'r Cynllun neu gwynion.  Byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu set effeithiol ac adeiladol o fesurau cydymffurfio.

Fel gydag adroddiad cydymffurfio y llynedd, cododd rhai mân achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun yn ystod y flwyddyn,  gan gynnwys:

- negeseuon allan-o'r-swyddfa anghywir;
- llofnodion awtomatig e-bost anghywir;
- staff y Comisiwn yn anfon negeseuon e-bost uniaith at yr holl Aelodau neu'r  holl staff.

Cododd y Cydgysylltwyr y materion unigol gyda'r aelodau perthnasol o staff er mwyn sicrhau bod y methiant yn cael ei gywiro ar unwaith. Cafodd yr aelodau o staff gymorth ac arweiniad hefyd er mwyn sicrhau llai o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r Cydgysylltwyr, fel mater o drefn, yn atgyfnerthu disgwyliadau pob aelod o staff, a gwneir cais i Reolwr y Cynllun fel y bo'n briodol.

## Cwynion

Yn anffodus, bu achlysuron yn ystod y flwyddyn pan rydym wedi methu â chyflawni'r safonau uchel a osodwyd i ni ein hunain ac roeddem wedi methu â bodloni disgwyliadau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth neu'r cyhoedd. Cafwyd nifer o gwynion anffurfiol a ffurfiol, a gellir eu categoreiddio fel a ganlyn:

- **Technoleg**
  Mae adegau wedi bod pan nad ydym wedi gallu cyhoeddi dogfennau yn unol â gofynion ein Cynllun oherwydd materion technolegol. Rydym hefyd wedi cael gwybod am nifer o achosion o lincs i ddogfennau Cymraeg sy'n arwain at y fersiynau Saesneg neu lincs wedi torri. Mae adborth ar faterion fel hyn yn hynod o werthfawr i ni gan ei fod yn ein galluogi i gywiro camgymeriadau neu broblemau yn gyflym.

- **Dewis iaith**
  Mae adborth gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wedi nodi y bu achlysuron lle maent wedi methu â defnyddio eu dewis iaith yn ystod digwyddiadau a gynhaliwyd ar Ystâd y Cynulliad. Mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau y caiff y sefyllfa hon ei hosgoi yn y dyfodol, drwy ddiwygio prosesau gwaith ac atgoffa aelodau perthnasol o staff o ofynion y Cynllun ac argaeledd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd

- **Gwasanaethau cwsmeriaid**
  Yn gyffredinol, o safbwynt ddwyieithog, mae profiad ymwelwyr yn y Senedd wedi bod yn dda, ond cafodd ei gyfaddawdu oherwydd digwyddiad ynysig a oedd yn cynnwys grŵp o ymwelwyr a ofynnodd am wasanaeth Cymraeg, ond y gwnaethom fethu â'i gyflawni. Mae ymchwiliad i'r digwyddiad yn cael ei gynnal ac rydym wedi defnyddio'r cyfle i sicrhau bod ein Tîm Cyswllt Cyntaf yn ymwybodol o ofynion y Cynllun a sut i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol.

- **Gwybodaeth Gyhoeddus**
  Cysylltodd aelodau o'r cyhoedd â ni ynghylch diffyg cynnwys dwyieithog yn ein gwybodaeth gyhoeddus, gan gynnwys hysbysebion mewn papurau newydd lleol a fideos ar ein sianel YouTube. Pan oedd yn bosibl, cafodd unrhyw amryfuseddau eu cywiro ar unwaith. Ym mhob achos, dilynwyd y weithdrefn gwyno gywir, a chafodd achwynwyr wybodaeth am y camau a gymerwyd ac ymddiheuriad am y tramgwydd anfwriadol a achoswyd. Cafodd yr Aelodau Staff a'r timau perthnasol eu hatgoffa o'r angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth gyhoeddus a gaiff ei rhyddhau gan y Comisiwn yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun.

## Gwersi a Ddysgwyd

Rydym yn gwerthfawrogi pob adborth ar ein gwasanaethau dwyieithog. Mae'r prif themâu sy'n codi o gwynion ac adborth yn rhoi arwydd clir o feysydd sydd angen eu gwella neu gryfhau, gan gynnwys:

- Sicrhau bod gennym drefniadau yn eu lle i sicrhau bod pob aelod o staff y Comisiwn yn parhau i fod yn ymwybodol o ofynion y Cynllun, ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i ethos dwyieithog y sefydliad
- Sicrhau bod ein cynnyrch digidol newydd a mwy arloesol yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun, a bod lincs i fersiynau Cymraeg o ddogfennau yn cael eu monitro a'u cynnal
- Sefydlu diwylliant lle mae gwasanaethau dwyieithog hyblyg a phwrpasol yn cael eu cynnig a'u hannog yn rhagweithiol

Byddwn yn defnyddio ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn seneddol i ddod, ynghyd â'r strategaeth sgiliau dwyieithog a monitro cydymffurfiad ffurfiol.

# 05.Blaenoriaethau ar gyfer 2015-16

Bydd y flwyddyn seneddol nesaf ychydig yn fyrrach na'r arfer oherwydd diddymiad y Cynulliad wrth baratoi ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2016. Bydd yn gyfnod cyffrous, a bydd y ffocws ar atgyfnerthu'r sgiliau a ddatblygir a'r profiad a gafwyd yn ystod oes y Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol wrth baratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

Mae Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi dogfennau dwyieithog, a'r ddarpariaeth bwrpasol sydd eisoes wedi ei gwneud. Mae'r arolwg blynyddol o Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn dangos gwelliant amlwg yn y sgôr ar gyfer y gefnogaeth a ddarperir i'w galluogi i weithio yn eu dewis iaith. Byddwn yn anelu at gynnal a gwella'r cymorth hwnnw a gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog gwell. Bwriedir cwblhau'r amcanion canlynol yn ystod cyfnod y flwyddyn seneddol nesaf.

- Byddwn yn sicrhau bod yr holl baratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cynnig rhagweithiol sy'n golygu y gall Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth weithio yn eu dewis iaith fel y sefyllfa ddiofyn, gan gynnwys cynnydd yn gwasanaethau pwrpasol a ddarperir a chymorth wedi'i deilwra i unigolion neu grwpiau.
- Byddwn yn sicrhau y gallwn ddeall ac ymateb yn rhagweithiol i anghenion holl Aelodau'r Cynulliad a etholir i'r Pumed Cynulliad.
- Byddwn yn paratoi ar gyfer darparu dogfennaeth cefnogi pwyllgor yn gwbl ddwyieithog gan gynnwys dogfennau briffio ar gyfer bob pwyllgor.
- Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth a gweithredu dulliau creadigol ac arloesol o'u cefnogi.
- Byddwn yn adeiladu ar y gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ac yn treialu gwelliannau o ran cynhyrchu hysbysebion cymorthfeydd, cylchlythyrau a dogfennau eraill sy'n gysylltiedig ag etholaeth, yn ddwyieithog.

## Gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru

Caiff adborth gan aelodau o'r cyhoedd ei gasglu ar sail ad hoc, ac yn gyffredinol mae'n berthnasol i brofiad da neu ddrwg cwsmer. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cwsmeriaid wedi dweud wrthym eu bod wedi sylwi ar newid yn yr ethos dwyieithog ar yr ystâd, ond bod angen inni wneud mwy i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnig yn rhagweithiol ac yn ddiofyn. Bwriedir cwblhau'r amcanion canlynol yn ystod cyfnod y flwyddyn seneddol nesaf.

- Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o gasglu adborth gan y cyhoedd ar ein darpariaeth gwasanaeth dwyieithog er mwyn nodi a rhannu arfer da a gweithio ar feysydd sydd angen eu cryfhau.
- Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y dulliau amgen o gefnogi dysgwyr Cymraeg a weithredwyd dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn codi a meithrin eu hyder i ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn amgylchedd gwaith.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Tîm Diogelwch i gynyddu gallu a sgiliau ymhellach i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog rhagorol.

- Byddwn yn gweithio gyda chontractwyr allanol sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen ar ein rhan er mwyn sicrhau eu bod yn deall gofynion y Cynllun ac y gallant ddarparu'r gwasanaethau hynny i safon ddigon uchel.

## Gwasanaethau ar gyfer Staff y Cynulliad

Mae aelodau staff Comisiwn y Cynulliad yn rhoi adborth ar weithio yn ddwyieithog yn anffurfiol a thrwy eu Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol yn gyson ar y gefnogaeth a ddarperir gennym i unigolion sydd am ddatblygu neu wella eu sgiliau iaith a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth hyblyg a phwrpasol. Mae Penaethiaid Gwasanaethau a'r Cydgyswylltwyr Ieithoedd Swyddogol wedi dweud wrthym y byddent yn gwerthfawrogi cymorth ychwanegol i ddatblygu cynlluniau iaith a gydag arferion recriwtio. Byddwn yn anelu at ddarparu'r cymorth hwn drwy weithio gydag unigolion a datblygu dulliau cadarn a phriodol ar gyfer eu defnyddio ar draws y sefydliad. Bwriedir cwblhau'r amcanion canlynol yn ystod cyfnod y flwyddyn seneddol nesaf.

- Byddwn yn adolygu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn ddefnyddiol.

- Byddwn yn datblygu ac yn diweddaru cynlluniau iaith gwasanaethau unigol er mwyn sicrhau bod gan bob gwasanaeth y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog neu i ymdrin â diffygion drwy hyfforddiant neu recriwtio.

- Byddwn yn cynnal a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau iaith ar draws Comisiwn y Cynulliad, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau newydd ac i lywio cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth.

- Byddwn yn sicrhau bod dulliau effeithiol ar gyfer monitro cydymffurfio, adborth a gwersi a ddysgwyd yn cael eu datblygu a'u hymgorffori ar draws y sefydliad.